Dylai polisi Cymru adlewyrchu'r gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol sy'n normaleiddio trais yn erbyn menywod tra'n cadw golwg ar gyffredinrwydd trais ar sail rhyw yn gyffredinol ac yn eang ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol. **Argymhellion: Gwneud athrawon yn ymwybodol o ddangosyddion trais ar sail 'anrhydedd', FGM a phriodas dan orfod.**	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (KLS) i gefnogi ysgolion i greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant. Pwrpas y canllaw hwn yw helpu pob lleoliad addysg i sicrhau bod ganddynt systemau diogelu effeithiol ar waith. Diweddarwyd y canllaw hwn yn ddiweddar i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a chryfhau trefniadau diogelu. Mae'r canllaw hwn yn statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol a sylfaen, a sefydliadau addysg bellach. Fodd bynnag dylai pob lleoliadau addysg ystyried y canllawiau fel arfer effeithiol. Mae'r KLS wedi'i ddiweddaru yn cynnwys pennod ar Gam-drin yn y cartref, trais ar sail rhyw, trais rhywiol ac arferion diwylliannol niweidiol, gydag adrannau penodol ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a phriodas dan orfod. Mae'r KLS yn cynnwys offeryn archwilio diogelu i ddarparu cefnogaeth i ysgolion (a phob lleoliad addysg arall) i sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i gyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â chanllawiau KLS. Mae Hwb, ein platfform dysgu digidol, yn cynnal cyfres o fodiwlau e-ddysgu, sydd wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn cefnogi'r holl staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y nodir yn y canllawiau KLS. Yn ogystal, mae taflen ffeithiau ac e-boster ar FGM wedi'i datblygu i ymarferwyr addysg godi ymwybyddiaeth o'r mater ac i ddarparu gwybodaeth, gan gynnwys sut i adnabod yr arwyddion y gallai merch fod mewn perygl o FGM. Cyhoeddwyd y daflen ffeithiau ar Hwb a'i rhannu gyda'n rhwydweithiau.

Dim Hawl i Gronfeydd Cyhoeddus: er bod hwn yn faes polisi heb ei ddatganoli, serch hynny mae'r effeithiau i'w gweld yng Nghymru fel adroddiad ehangach gan y Cynulliad Cenedlaethol ar Gam-drin yn y Cartref a amlinellwyd yn 2009. Nododd yr ymateb i'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddod o hyd i ateb i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref gyda NRPF. O ystyried canfyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a'n hymchwil ein hunain rydym yn argymell y dylid sicrhau bod costau lloches neu lety arall i fenywod a phlant nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus ar gael, a'u gwarantu gan Lywodraeth Cymru lle bo angen, er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion ac amddiffyn eu hawliau dynol, lle byddent fel arall yn ddigartref. Dylai hwn fod yn ddatrysiad cost-effeithiol a'i bwysoli yn erbyn costau cyffredinol trais ar sail rhyw ar draws yr economi ehangach. Wrth sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y cytundebau hawliau dynol y mae wedi eu llofnodi.	Mae'n gwbl annerbyniol i lwyddiant plant gael ei bennu gan eu hamgylchiadau cymdeithasol neu economaidd. Yn sail i'n holl waith mae cred na ddylai gallu rhywun i elwa o addysg gael ei bennu gan ble maen nhw'n byw, beth yw eu cefndir na beth yw incwm eu rhieni. Rydym yn buddsoddi symiau digynsail - dros £110 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon - i wella canlyniadau i'n dysgwyr difreintiedig. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym wedi estyn y Grant Datblygu Disgyblion (PDG). Mae bellach yn cefnogi hyd yn oed mwy o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Fe wnaethon ni gyflwyno'r llinyn mwyaf newydd i'r PDG - PDG Mynediad - yn 2018-19, i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn uniongyrchol i deuluoedd sydd ei hangen fwyaf i helpu i dalu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol. Mae telerau ac amodau PDG Mynediad ar gyfer 2020/21 yn nodi bod plant o deuluoedd nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus yn y dosbarth derbyn; Blwyddyn 3; Blwyddyn 7; a Blwyddyn 10 yn gymwys i gael y cyllid. Anogir awdurdodau lleol yn gryf i arfer eu disgresiwn i ganiatáu i blant teuluoedd sy'n profi caledi difrifol, oherwydd nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus, elwa ar ddarpariaeth prydau ysgol am ddim gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd wedi ariannu Plant yng Nghymru i ddatblygu canllawiau Pris Tlodi Disgyblion ar gyfer ysgolion fel y gallant gefnogi disgyblion difreintiedig o ddydd i ddydd.

Dylid sicrhau bod holl weithwyr y GIG yn ymwybodol eu bod yn llwybr sylweddol i fenywod yn y categorïau hyn i gael cefnogaeth ac mae angen iddynt fod yn ymwybodol o sut i nodi trais ar sail rhyw yn ei holl ffurfiau, sut i alluogi datgelu a darparu cefnogaeth a llwybrau atgyfeirio. **Dylid cydnabod masnachu mewn pobl fel mater iechyd: dylai darparwyr gofal iechyd dderbyn hyfforddiant ar ganlyniadau iechyd masnachu mewn pobl, o ran canlyniadau iechyd corfforol, rhywiol, atgenhedlu, cymdeithasol a iechyd meddwl, a dulliau diwylliannol cymwys at gefnogi pobl sydd wedi'u masnachu.**	**Canllawiau ar fynediad at ofal sylfaenol ac eilaidd:** Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw i fynd i'r afael â materion a phryderon a godwyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r canllawiau'n darparu cyfeiriad a thempled i fyrddau iechyd ddatblygu protocolau, polisïau ac arfer lleol cyson - wedi'u seilio ar brosesau, gweithdrefnau, trefniadau gweinyddol a llywodraethu cadarn i fyrddau iechyd lynu atynt er mwyn sicrhau parhad gofal iechyd a thegwch mynediad. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am wneud darpariaeth resymol ar gyfer eu poblogaeth breswyl, gan gynnwys anghenion grwpiau neu unigolion penodol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Ymhlith yr ymrwymiadau allweddol mae: » Dylid adolygu asesiadau o angen iechyd ac imiwneiddio cyfredol (a elwir yn ffurfiol y 'Llyfr Glas') o fewn amserlen resymol, wedi'u llywio gan yr asesiad anghenion cenedlaethol ac ymchwil arall sydd ar y gweill ar hyn o bryd, i adlewyrchu'r materion a'r anghenion sy'n effeithio ar y boblogaeth RAS sy'n cyrraedd Cymru, gan roi sylw dyledus i bryderon diogelu megis masnachu posibl, camfanteisio rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM). **Adnoddau Cyfieithu ar y Pryd:** Mae gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches hawl i gael mynediad at driniaeth gan feddygon teulu waeth beth yw eu statws lloches ac mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu cyfle i herio byrddau iechyd os gwrthodir mynediad iddynt i wasanaethau. Hefyd, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches oherwydd diffyg gwybodaeth o'r Saesneg. Mae angen i fyrddau iechyd sicrhau bod adnoddau cyfieithu ar y pryd digonol ar gael a'u bod yn addas i'r achos sy'n cael ei drafod. **Straen Trawmatig Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar weithredu gwasanaeth Straen Trawmatig Cymru sy'n defnyddio dull system gyfan, cyson, ac sy'n cael ei lywio gan y sylfaen dystiolaeth gyfredol a phrofiadau UHB Caerdydd a'r Fro a gwasanaethau Cyn-filwyr GIG Cymru. Mae byrddau iechyd yn datblygu cynlluniau ar sut y byddant yn cyflawni'r fanyleb yn eu rhanbarth - a dyrannwyd cyllid ychwanegol iddynt i wneud hyn. Nid 'gwasanaeth' y cyfeirir ato yn bennaf yw hwn - ond rhaglen wella a fydd yn cynnig adnoddau ar sail tystiolaeth i weithwyr proffesiynol sy'n delio ag unigolion sydd wedi profi trawma. Mae ffrydiau gwaith arbenigol ar waith ar gyfer grwpiau allweddol: » plant a phobl ifanc; » amenedigol; » carcharorion; » ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl eraill sy'n ceisio noddfa; a » goroeswyr ymosodiadau rhywiol a thrais ar sail rhyw.

	Mae pecyn hyfforddiant sefydlogi emosiynol traws-sector wedi'i anelu at staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector eisoes wedi'i gyhoeddi ac mae Tîm Gweithredu Straen Trawmatig Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen hyfforddi ategol. Yng ngoleuni'r pandemig a'r nifer cynyddol posibl o unigolion sydd angen cefnogaeth, mae'r tîm gweithredu wedi gweithio i gyflymu rhai agweddau ar eu cynllun gwaith. Mae modiwlau e-hyfforddi/ pecynnau gwybodaeth sy'n ymgorffori fideos/animeiddiadau wedi'u cynllunio. Bydd mabwysiadwyr Bwrdd Iechyd cynnar yn anelu at fynd yn fyw yn fuan. **Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl Cymru** • Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer 2019-2022 i gynnwys ymrwymiadau newydd a chamau gweithredu penodol, sy'n ymateb i anghenion iechyd meddwl sy'n newid ac anghenion y grwpiau hynny o bobl sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan bandemig Covid-19 (er enghraifft cymunedau incwm isel a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig). • Fel rhan o'r Cynllun Cyflenwi Iechyd Meddwl - a thrwy fframwaith darparu'r GIG - bydd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru yn tystio sut y byddant yn darparu gwasanaethau'n deg ac yn sicrhau bod mynediad at wybodaeth yn cael ei darparu pan fo angen ac ar ffurf sy'n hygyrch, gan gynnwys ystyried iaith. Rydym hefyd yn sicrhau bod Llinell Gymorth BAME Cymru yn cysylltu â llinell gymorth iechyd meddwl CALL genedlaethol i ddarparu mynediad at gymorth iechyd meddwl. • Mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i Diverse Cymru i wreiddio Cynllun Ardystio Arfer Da Gweithle Iechyd Meddwl BME yng Nghymru ymhellach. Byddwn yn parhau i weithio gyda Diverse Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn hygyrch ac yn briodol yn ddiwylliannol. • Mae yna ymrwymiad newydd hefyd yn y Cynllun Cyflawni i sicrhau bod iechyd meddwl yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sydd ar ddod yng Nghymru.

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth; dylai'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a gynigiwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn 2012 ganolbwyntio ar yr unigolion hynny sydd fwyaf tebygol o wneud cyswllt cychwynnol â pherson sydd mewn perygl o drais, a chynnwys yr heddlu, athrawon a staff eraill ysgolion, swyddogion tai a digartrefedd a gwasanaethau cymdeithasol fel blaenoriaeth, gyda llinellau atgyfeirio clir ac uniongyrchol pe bai camdriniaeth yn cael ei datgelu fel trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod, FGM a masnachu pobl, a'r ffordd orau o gynorthwyo menywod gyda NRPF.	• Rydym wedi ymrwymo i wneud hyfforddiant yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb • Rydym wedi agor ein hyfforddiant ar-lein VAWDASV i'r holl weithwyr proffesiynol (nid dim ond y rhai sy'n awdurdod perthnasol) • Bydd grwpiau 3 Gofyn a Gweithredu yn canolbwyntio ychydig mwy ar gymhlethdod anghenion a materion • Rydym wedi comisiynu hyfforddiant ychwanegol eleni felly gall unrhyw weithiwr proffesiynol rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant HBA. Mae gennym faes llafur arbenigol - mae'n gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau perthnasol i sicrhau hyfforddiant parhaus/pynciol i staff
Dylai hyfforddiant llawn ar fasnachu mewn pobl, NRPF a'r Consesiwn Trais yn y Cartref, trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a FGM fod yn rhan o ofynion hyfforddiant Cam 3 a 4 o fewn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Fframwaith. Mae angen datblygu hyfforddiant ynghyd ag arbenigwyr o sectorau sy'n mynd i'r afael â materion trais ar sail rhyw ar hyn o bryd gan gynnwys sefydliadau menywod BME a sefydliadau sy'n gweithio gyda'r system mewnfudo a lloches. Dylai eu mewnwelediadau gael eu prif ffrydio i'r elfen arweinyddiaeth a hyfforddiant.	Rydym wedi sefydlu Rhaglen Hyfforddiant Gwrth-Gaethwasiaeth i ddarparu ystod eang o gyrsiau ledled Cymru i lefel gyson. Cymeradwyir yr hyfforddiant gan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bob blwyddyn mae miloedd o bobl ledled Cymru yn elwa o dderbyn yr hyfforddiant hwn. Mae caethwasiaeth yn drosedd gymhleth i'w hymchwilio a'i herlyn a dyna pam rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid o'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu'r Cwrs Troseddau Cyfundrefnol a Chaethwasiaeth Fodern. Darpariaeth hyfforddiant ar y cyd tri diwrnod yw hon ar gyfer Uwch Swyddogion Ymchwilio Gorfodi'r Gyfraith ac Erlynwyr y Goron ac Eiriolwyr y Goron.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys dulliau adnabod a llwybrau atgyfeirio clir ac uniongyrchol ar gyfer menywod a merched sydd angen cymorth oherwydd NRPF, neu oherwydd iddynt gael eu masnachu.	Rydym wedi datblygu a gweithredu'r Llwybr ar draws Cymru gyfan ac mae'n ymgorffori'r defnydd o'r broses Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) ar gyfer goroeswyr. Ystyrir hyn yn arfer da a dim ond yng Nghymru y mae'n digwydd. Er mwyn cefnogi'r broses hon, mae Cydlynydd MARAC wedi'i recriwtio ac mae'n cael ei ariannu i ddechrau o asedau a atafaelwyd gan droseddwyr gan ddefnyddio Deddf Elw Troseddau 2002. Mae Cydlynydd MARAC yn aelod o staff BAWSO sy'n gweithio o'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol. Mae'r swydd bellach yn cael ei hariannu ar y cyd gan Heddluoedd Cymru.
Gwasanaethau a Chymorth. Mae angen adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl yn symlach a defnydd cyson o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, y dylid ei fonitro, er mwyn sefydlu a dadansoddi cyfraddau atgyfeirio a chwestiynau adnabod sydd wedi'u hymgorffori yn Rhestr Wirio Asesiad Risg DASH.	Rydym wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau allweddol yng Nghymru, ac ar draws Llywodraeth Cymru i bennu graddfa, mathau a lleoliad caethwasiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i wella gwybodaeth a chofnodi digwyddiadau yng Nghymru, gan ddefnyddio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), a chynyddu achosion o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae Cymru yn un o dair ardal Mabwysiadu Cynnar a ariennir gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y Rhaglen Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol. Mae Barnardo's Cymru yn gweithredu'r Rhaglen yng Nghymru.
Dylai cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithwyr gael eu hyfforddi ar drais ar sail rhyw dan y Fframwaith gyda Chod Ymddygiad cadarn - yn y sector cyhoeddus ac mewn amgylcheddau eraill. Bydd cynyddu argaeledd cyfieithwyr ar y pryd hyfforddedig, menywod yn ddelfrydol, yn golygu bod menywod sy'n profi trais yn y cartref yn fwy abl i ddatgelu eu profiadau yn hyderus.	Mae'r cam gweithredu hwn yn dal i gael ei ddatblygu - rydym yn edrych ar ffyrdd o agor gofyn a gweithredu i staff awdurdodau amherthnasol.

Cymorth i Fenywod Cymru

Argymhellion	Adolygiad o Gynnydd/Ymateb
Dylai llinell gymorth Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan gynnwys pobl arbenigol i ddelio â galwadau sydd â'r gallu i gynorthwyo menywod i wneud cais am Gonsesiwn Trais yn y Cartref Amddifadedd y Swyddfa Gartref (DDV).	Nid yw hyn wedi cael ei weithredu oherwydd mae'n rhaid i gyfreithiwr mewnfudo roi cyngor mewnfudo (sy'n cynnwys cynghori goroeswr i wneud cais am y DDVC). Gall staff cymorth yn y darparwyr gwasanaeth (ee lloches) gynghori'r goroeswyr i ofyn am gyngor mewnfudo ar eu hopsiynau ar ôl iddynt dderbyn atgyfeiriad i gefnogi goroeswr gyda NRPF. Os yw'r goroeswr yn gymwys ac yn penderfynu (ar ôl cael y wybodaeth hon gan y cyfreithiwr) bwrw ymlaen, gall y gweithiwr cymorth helpu i wneud y cais. Felly fel rheol y gweithwyr cymorth a fydd yn cynorthwyo i wneud y cais hwn (nid y llinell gymorth). Yn 2021 comisiynodd WWA Praxis i ddarparu hyfforddiant i holl wasanaethau VAWDASV y trydydd sector yng Nghymru ar hawliau goroeswyr yng Nghymru sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn ar y DVR/DDVC, yn ogystal â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yr NRM, a Chefnogaeth Lloches
Dylai pobl sy'n trin galwadau gael eu hyfforddi i allu nodi trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a FGM.	Mae'r holl drinwyr galwadau wedi'u hyfforddi fel rhan o'u cyfnod sefydlu i nodi pob math o VAWDASV - gan gynnwys HBV, FGM, Priodas dan Orfod ac ati. Mae'r holl Weithwyr Cymorth Llinell Gymorth hefyd wedi cwblhau llyfrau gwaith QCF (Lefel 3) sy'n cynnwys Uned ar y pynciau a grybwyllir.
Dylai arbenigwyr sy'n gallu darparu ymatebion addas fod ar gael bob amser i sicrhau ymatebion priodol ac amserol.	Mae'r Llinell Gymorth yn gweithredu ar sail 24/7/365 gyda 4 llwybr hygyrchedd: ffôn, gwe-sgwrs, testun SMS ac ymholiadau trwy e-bost. Mae pob Gweithiwr Cymorth Llinell Gymorth yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ond gallant hefyd ddefnyddio Llinell Iaith ar gyfer unrhyw un sydd angen gwasanaethau cyfieithydd ar y pryd. Mae WWA hefyd wedi datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer gwasanaethau arbenigol ar hawliau goroeswyr sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Gwnaethpwyd hyn gyda mewnbwn gan ystod eang o arbenigwyr, gan gynnwys bargyfreithwyr sy'n arbenigo mewn cyfraith gyhoeddus a gwasanaethau eiriolaeth lloches ac ymfudol.
Argymhellion eraill yr ydym wedi helpu i gyflawni yn eu herbyn (ee trwy hyfforddiant, ymgyrchoedd)	
Dylai staff perthnasol Awdurdodau Lleol fod yn ymwybodol o hyfforddiant a gwybodaeth am NRPF a dylent gadw cofnodion o'r achosion a gefnogir, a sicrhau rheolaeth ragweithiol ar achosion.	Mae staff awdurdodau lleol yn dod o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol - dylai pob un gwblhau hyfforddiant lefel 1, a dylai Gofyn a Gweithredu gwmpasu carfanau penodol. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn rhan o'r bartneriaeth sy'n cyflwyno'r hyfforddiant hwn. Yn yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, trafodir NRPF fel un o'r rhwystrau i geisio cefnogaeth. Rhaid i bob Awdurdod Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu strategaethau VAWDASV lleol yn ogystal â chadw at ganllawiau comisiynu VAWDASV statudol - ar gyfer y ddau dylid cynnal asesiadau anghenion cynhwysfawr yn ogystal ag asesiadau effaith Cydraddoldeb a ddylai nodi'r anghenion o ran NRPF trwy ymgynghori â gwasanaethau arbenigol lleol, goroeswyr a defnyddio data ac ymchwil cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae'n aneglur iawn a yw hyn yn cael ei wneud yn gyson neu o gwbl mewn rhai meysydd.

Dylid cydnabod masnachu mewn pobl fel mater iechyd: dylai darparwyr gofal iechyd dderbyn hyfforddiant ar ganlyniadau iechyd masnachu mewn pobl, o ran canlyniadau iechyd corfforol, rhywiol, atgenhedlu, cymdeithasol a iechyd meddwl, a dulliau diwylliannol cymwys at gefnogi pobl sydd wedi'u masnachu.	Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn gweithio i ddod â masnachu mewn pobl a chamfanteisio o dan agenda VAWDASV. Rydym wedi ysgrifennu papur safbwynt ar hyn (i'w gyhoeddi'n fuan) ac yn ddiweddar wedi trefnu a chynnal digwyddiad bwrdd crwn ar gyfer gwahanol sectorau a goroeswyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru at y diben hwnnw. Mae'r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV gyfredol yn nodi Masnachu mewn Pobl a chamfanteisio ond prin yw'r camau gweithredu sy'n cyd-fynd â hi ac ar hyn o bryd mae'r gwaith hwn yn digwydd ar sail seilo. Rydym yn galw am ddod â'r gwaith hwn o dan lywodraethu dull traws-lywodraethol i VAWDASV.
Dylai pob darparwr gwasanaeth sicrhau bod menywod sydd wedi'u gwasgaru i Gymru yn ymwybodol ar y cam cynharaf o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a ddylai, ar gyfer menywod sy'n ceisio lloches, gynnwys eu hawliau mewn perthynas â Chyfweliad Lloches y Swyddfa Gartref yn unol â Chanllawiau Rhyw y Swyddfa Gartref.	Darparwyd hyfforddiant 'Gweithiwr Proffesiynol Dibynadwy' i Gyngor Ffoaduriaid Cymru gan Gymorth i Fenywod Cymru. Rydym hefyd wedi cynnal digwyddiadau yn ymwneud â NRPF i gynyddu ymwybyddiaeth, ee https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/WWA-Cheques-and-Balances-Economics-of-Abuse-Report.pdf Mae Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa yn nodi aliniad â VAWDASV ond prin fu'r llywodraethu a'r cyswllt ar draws yr agendâu hyn i gyflawni hyn. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/nation-of-sanctuary-refugee-and-asylum-seeker-plan_0.pdf
Ni ddylid rhoi asiantaethau mewn sefyllfa lle maent yn troi menywod i ffwrdd ar sail eu statws NRPF. Dylai gwasanaethau helpu neu gyfeirio pobl gymwys gyda NRPF i wneud cais am Gonsesiwn Trais yn y Cartref Amddifadedd y Swyddfa Gartref ar y cyswllt cyntaf, naill ai trwy'r llinell gymorth neu aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn y sefydliad sy'n gallu nodi cymhwysedd a darparu cefnogaeth trwy gydol y broses.	Mae'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn wedi arsylwi bod asiantaethau, yn amlach na pheidio, yn gwrthod caniatáu mynediad i lochesau i'r rhai sydd â NRPF. Mae ffurflenni data blynyddol Cymorth Menywod Cymru gan yr aelodaeth yn dangos, er bod nifer yr atgyfeiriadau lloches a dderbyniwyd ar gyfer goroeswyr sydd â NRPF wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn am y 4 blynedd diwethaf (2016/17-2019/20), yn gyfrannol, bu gostyngiad rhwng 2016/17 a 2018/19 (o 79% i 68%), ond yn 2019/20 cynyddodd hyn eto i 79%. Mae'n bwysig nodi gwir gyfyngiadau'r DDVC a'r rhwystr y mae hyn yn ei achosi i wasanaethau allu dod o hyd i arian i ddarparu ar gyfer goroeswyr â NRPF. Nid yw pawb yn gymwys i gael DDVC (dim ond y rhai ar fisa priod/partner y mae eu partner yn ddinesydd Prydeinig neu sydd â statws sefydlog yn y DU sy'n gymwys). Y dirwedd mewnfudo a chymhwyster cymhleth y mae'n rhaid i bobl ei llywio yw'r broblem. Mae WWA yn gwneud cryn dipyn o waith i geisio egluro'r sefyllfa hon a'r gwahanol opsiynau ar gyfer goroeswyr fel nad yw asiantaethau'n cael eu rhoi mewn sefyllfa o droi menywod i ffwrdd. Mae hwn bellach wedi'i ddarparu ac ar ben hynny mae pecyn cymorth/ cefnogaeth wedi'i ddatblygu a'i rannu gyda holl wasanaethau VAWDASV y trydydd sector.

Llenyddiaeth mewn iaith glir ar gyfer mwy o hygyrchedd, ac mewn gwahanol gyfryngau i'r rhai nad ydynt yn llythrennog, yn ogystal ag ymestyn yr ieithoedd a ddefnyddir; taflenni i'w dosbarthu'n eang mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys mewn meddygfeydd, toiledau merched a gorsafoedd heddlu.	Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi recriwtio swyddog i wella hygyrchedd y Llinell Gymorth ar gyfer gwahanol gymunedau ymylol a lleiafrifol. Mae deunyddiau wedi'u darparu mewn amrywiaeth o fformatau, sticeri, cardiau coffi, posteri, ac ati ac wedi'u lledaenu'n eang. Mae ymgyrch ddiweddar Llywodraeth Cymru "Dylai neb deimlo'n ofnus gartref" wedi ei chyfieithu i nifer o ieithoedd. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi darparu deunyddiau wedi'u cyfieithu ar gyfer goroeswyr ac arsylwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, mewn sawl iaith ac mewn fformat hawdd ei ddarllen.
Hyfforddiant arbenigol parhaus mewn trais ar sail rhyw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, yr heddlu, tai ac iechyd.	Dylai hyn gael ei gwmpasu trwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae gan WWA ystod o hyfforddiant ar gael, gan gynnwys: • Cyflwyniad i VAWDASV • Ymwybyddiaeth Cam-drin yn y Cartref • Deall Trais Ar Sail Anrhydedd fel y'u gelwir • Ymarfer wedi'i lywio gan drawma • Deall Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod • Effaith VAWDASV ar Blant a Phobl Ifanc.
Dylai gwasanaethau gydnabod anghenion penodol menywod yn hytrach na chanolbwyntio ar eu statws mewnfudo.	Mae hyn yn ganolog i'r model a'r dull Newid sy'n Para a hyrwyddir gan WWA sy'n canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n cael ei arwain gan anghenion i gefnogi goroeswyr. Mae'r model Newid sy'n Para yn cael ei dreialu gyda gwasanaethau yng Nghaerdydd, ond mae'r egwyddorion yn cael eu hyrwyddo gan holl aelodau WWA a'r Llinell Gymorth. Mae WWA wedi cyflwyno'r dull hwn i gomisiynwyr ledled Cymru. Mae'r canllawiau comisiynu cenedlaethol yn diffinio cefnogaeth arbenigol sy'n cael ei harwain gan anghenion - dylai comisiynwyr ddilyn hyn (yn ymarferol, mae hyn yn gyfyngedig). Mae'r strategaeth Genedlaethol yn ymrwymo i ariannu gwasanaethau sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n cael eu harwain gan anghenion yn gynaliadwy - unwaith eto mae angen cyflawni hyn. Mae Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol WWA yn nodi gwasanaethau ar ddull a arweinir gan anghenion. Mewn perthynas â NRPF, yn benodol, mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddangos: "1.5 Ni wrthodir gwasanaeth i unrhyw oroeswr sydd angen cymorth oherwydd nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, oherwydd ei statws mewnfudo neu oherwydd nad oes ganddo'r hawl i arian cyhoeddus."
Rhaglenni camdrinwyr sy'n hygyrch i bobl nad ydyn nhw'n siarad Saesneg ac sydd ar gael mewn lleoliadau cymunedol.	Mae Respect (sefydliad cam-drin yn y cartref y DU sy'n arwain ar ddatblygu a gweithredu gwaith diogel ac effeithiol gyda chyflawnwyr ac y mae WWA yn bartner ag ef wrth ddarparu Newid sy'n Para) yn gofyn am dystiolaeth o gyllideb cyfieithu ar y pryd fel rhan o achrediad gwasanaeth.
Rhaglenni mentora a chyfeillio ar gyfer menywod sy'n profi trais ar sail rhyw.	Treialodd WWA y model SEEdS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) ac maent bellach yn hwyluso datblygiad Rhwydwaith Ymgysylltu Goroeswyr ledled Cymru.

Mynediad at gyfieithwyr ar y pryd benywaidd proffesiynol.	Mae'r Llinell Gymorth, a llawer o aelodau WWA yn defnyddio Llinell laith ond nid yw'r cyfieithwyr ar y pryd bob amser yn fenywod.
Gwell partneriaeth a chydweithrediad rhwng cyrff anllywodraethol yng Nghymru sy'n cefnogi menywod BME.	Mae cyni wedi arwain at brinder gwasanaethau BME arbenigol yng Nghymru. Mae prosesau tendro a chomisiynu cystadleuol wedi effeithio ar bartneriaethau a chydweithio. Yn enwedig lle nad yw darpariaeth 'gan ac ar gyfer' wedi'i chydnabod. Hefyd, mae angen darparu adnoddau ar gyfer cydweithredu a phartneriaethau fel rhan o'r model cyllido cynaliadwy, mae'n cymryd gallu ac adnoddau i weithio gyda'n gilydd (yn enwedig wrth fynd i'r afael â deinameg pŵer). Mae'r canllawiau comisiynu cenedlaethol yn nodi'r angen am ddarpariaeth 'gan ac ar gyfer' - nid yw hyn yn cael ei gyflawni ar draws Cymru.
Gwneud athrawon yn ymwybodol o ddangosyddion trais ar sail 'anrhydedd', FGM a phriodas dan orfod.	Mae grŵp Cam-drin Seiliedig ar 'Anrhydedd' Cymru wedi ymrwymo i wthio peth o'r agenda hon yn ei blaen. Mae WWA yn arwain ar ddatblygu taflenni ffeithiau diogelu Priodas dan Orfod ar gyfer ysgolion â LIC/Hyb ACEs/BAWSO, a'u bwydo i mewn i daflen ffeithiau'r HBA ar FGM. Mae WWA hefyd yn pwyso am gysylltu hyn â'r dull Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb/Addysg Gyfan tuag at VAWDASV. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddull addysg gyfan o ymdrin â VAWDASV yn cyfeirio at HBV, FGM, Priodas dan Orfod ac yn tynnu sylw at arfer gan BAWSO. Mae angen gweithredu ac ariannu hyn. Dylai athrawon gael eu cynnwys mewn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, ond gwyddom nad yw hyn wedi digwydd mewn sawl rhan o Gymru.
Sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc y mae trais yn effeithio arnynt, yn unol â'r cynnydd yn y galw y bydd y cynnig hwn yn ei greu.	Rydym yn parhau i ymgyrchu dros hyn ond nid ydym yn teimlo ein bod yn agosach at ein nod. Gweler e.e. ein hadroddiad Cyflwr y Sector: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/State-of-the-sector-2020-PDFdesign.pdf a hefyd Adroddiad Mae Plant yn Bwysig: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf Ar hyn o bryd mae NSPCC a WWA yn ymgyrchu gyda'i gilydd - gweler e.e. https://www.welshwomensaid.org.uk/campaigning/children-and-young-people-support-campaign-toolkit/
Mae angen ffynonellau cyllid diogel ar asiantaethau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau i'r sector menywod BME fel y gallant ganolbwyntio ar gefnogi a diwallu anghenion menywod BME y mae trais ar sail rhyw yn effeithio arnynt. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod grwpiau cymunedol menywod BME yn gallu cyrchu digon o adnoddau i symud ymlaen â'r gwaith hwn.	Rydym wedi bod yn galw am hyn yn ein hadroddiadau Cyflwr y Sectorau ers blynyddoedd. Mae'n ymrwymiad o fewn canllaw comisiynu VAWDASV cenedlaethol a strategaeth genedlaethol VAWDASV. Mae argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a nifer o Adroddiadau Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Senedd wedi tynnu sylw ato. Ond nid yw wedi'i gyflawni o hyd.

Canfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi, cyn belled ag y bo modd, y sefyllfa bresennol ar yr argymhellion a wnaed yn adroddiad 2013. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, gyda chyflwyniad deddfwriaeth a pholisi. Ond mae yna feysydd o hyd a allai fod angen gwaith ac ymchwil pellach. Mae'r rhain wedi'u nodi naill ai gan ddiffyg ymateb neu wybodaeth, neu o ganlyniad i'r broses werthuso.

a. NRPF. Nododd argymhellion gwreiddiol adroddiad 2013 argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar NRPF, ac eto mae'n ymddangos bod hyn yn dal i ddisgyn trwy'r bwlch o gyfrifoldeb datganoledig/heb ei ddatganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw hyn. Er bod hyn yn wir am fewnfudo, o ran gwasanaethau cymorth, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i'r rheini sydd â NRPF pe bai'n dewis gwneud hynny. Mae gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru fel yr argymhellir yn dal i ddangos ein bod yn aneglur ynghylch y data o ran faint o bobl sydd â NRPF ac mae tystiolaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru yn dangos ei bod yn anodd iawn i fenywod yn y sefyllfa hon gael gafael ar unrhyw lety neu gefnogaeth. Roedd y cwestiwn o gyllid ar gyfer darpariaeth ffoaduriaid i fenywod a merched yn fater mor fawr yn 2013 ag y mae yn 2021, gyda'r astudiaethau achos yn dangos yr heriau y mae staff llinell gymorth yn eu hwynebu wrth sicrhau lleoedd.

b. Data. Rydym yn deall cyffredinrwydd byd-eang trais, ond llai am gyffredinrwydd trais yn ein cymunedau. Mae angen mwy o waith i ddatblygu systemau gwybodaeth, gwyliadwriaeth a rhannu data a all nodi a dadansoddi data ansoddol a meintiol er mwyn sicrhau nad yw profiadau cymunedau amrywiol ac ymylol yn cael eu heithrio. Mae hyn yn golygu, lle mae gennym y data ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, ac atgyfeiriadau llinell gymorth y dylem geisio deall lle bo hynny'n bosibl sut y gallem nodi lle mae cymunedau penodol wedi cael eu heffeithio. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddefnyddio dulliau cipio data meddalach o ymgysylltu â'r cymunedau eu hunain ac adroddiadau mwy penodol gan asiantaethau arbenigol sy'n gweithio gyda'r cymunedau hyn yng Nghymru.

c. Cynnwys pob asiantaeth. Roedd rhai asiantaethau yn ei chael hi'n anodd rhoi diweddariad ar eu hargymhellion. Mae angen mwy o waith i ddeall pa gynnydd a wnaed ym maes plismona yng Nghymru a'r gwasanaethau cymdeithasol yn benodol gan nad oedd y gwerthusiad hwn yn gallu adrodd ar y meysydd hyn.

d. Anweledigrwydd menywod a merched sy'n fewnfudwyr gan gynnwys y rheini o'r gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma, gweithwyr sy'n fewnfudwyr a thymhorol, myfyrwyr ac eraill ar fisâu dros dro. Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o waith sydd wedi mynd i'r afael â phrofiad penodol y grwpiau hyn yn uniongyrchol mewn perthynas â VAWDASV

e. Diffyg cydgysylltiad rhwng ymrwymiadau'r Cynllun Cenedl Noddfa ar VAWDASV a pholisi VAWDASV yn Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun a'r strategaeth genedlaethol fel ei gilydd yn cynnwys ymrwymiadau allweddol sy'n croesi rhwng meysydd polisi ond nid yw cysylltu'r rhain, a'r VAWDASV a'r sectorau ffoaduriaid yn ymddangos yn glir mewn strwythurau llywodraethu. Mae yna hefyd ddatgysylltiad â'r gwaith cydraddoldeb ehangach a llai o weledigedd ar brofiad menywod hŷn, LHDTI, neu fenywod a merched anabl, cyflawnwyr, a'r profiad o droseddau casineb ac aflonyddu rhywiol sy'n gysylltiedig â hil. Mae hyn wedi arwain at adael ymrwymiadau'n mynd rhagddynt neu ddim yn cael eu dwyn ymlaen yn amlwg yn y Cynllun Cenedl Noddfa a strategaeth genedlaethol VAWDASV.

f. Diffyg ymwybyddiaeth o ddyletswyddau Gwasanaethau Cymdeithasol o dan ddeddfwriaeth Cymru. Fel y dangosir yn yr Astudiaeth Achos lle mae gweithiwr cymdeithasol yn dweud ei fod yn "fwy o fater DV" (ac felly nid o fewn ei gylch gwaith). Mae LlC wedi comisiynu Rhwydwaith NRPF i ddarparu hyfforddiant ar hyn, a ddaeth i ben yn ddiweddar. Ond mae'r adolygiad hwn yn canfod bod mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf, na chânt eu crybwyll yn y diweddariad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol.

g. Diffyg llywodraethu ar y cyd o amgylch VAWDASV, VAWG a mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Er bod y Swyddfa Gartref yn mynychu'r Tasglu Gweinidogol ar Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, nid oes fforwm sy'n dwyn ynghyd swyddogion y ddwy lywodraeth ar y mater penodol hwn.

Casgliad

Mae'r adolygiad hwn wedi canfod y gwnaed rhywfaint o gynnydd gwirioneddol o ran deddfwriaeth o ran awdurdodaethau a pholisi, arweiniad a phroses llywodraethau Cymru a'r DU sydd wedi bwrw ymlaen â sawl agwedd ar y gwaith hwn. Mae'r bylchau wedi'u nodi yn y canfyddiadau, a gellir bwrw ymlaen â gwaith pellach i gau'r rhain ac adrodd yn erbyn cynnydd trwy adolygiad Strategaeth VAWDASV Genedlaethol Cymru a gynhelir yn 2021.

Cyfeiriadau

1 Hubbard, A, Payton, J a Robinson, A 'Torri Tir Newydd: Trais yn erbyn Menywod a Merched sy'n Fewnfudwyr, yn Ffoaduriaid neu'n Geisiwyr Lloches Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru: Caerdydd; 2013.

2 Wadere, H, 'Cut' Sioan a Shuster: Llundain: 2016

3 Cymorth i Fenywod Cymru https://www.welshwomensaid.org.uk/2020/08/creating-change-that-lasts-responding-to-vawdasv-following-the-covid-19-pandemic-roundtable/ cyrchwyd 13.3.21

4 Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru (2019) https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/statutory-guidance-for-the-commissioning-of-vawdasv-services-in-wales.pdf [cyrchwyd 13.3.21]

5 Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol - 2016 - 2021 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/national-strategy-2016-to-2021.pdf {cyrchwyd 14.3.21]

6 Banc y Byd https://www.worldbank.org/en/topic/socialsustainability/brief/violence-against-women-and-girls#:~:text=Gender-based%20violence%20%28GBV%29%20or%20violence%20against%20women%20and,sexually%20assaulted%20by%20-someone%20other%20than%20a%20partner. 2019 [cyrchwyd on 14.3.21]

7 https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/@dgreports/@dcomm/documents/publication/wcms_575479.pdf

8 Costau economaidd a chymdeithasol cam-drin yn y cartref: Swyddfa Gartref: Llundain: 2017 https://www.gov.uk/government/publications/the-economic-and-social-costs-of-domestic-abuse#:~:text=This%20report%20estimates%20the%20social,be%20approximately%20%C2%A366%20billion.

9 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/national-strategy-2016-to-2021.pdf

10 Access Denied: The cost of the "no recourse to public funds" policy https://static1.squarespace.com/static/590060b0893fc01f949b1c8a/t/5d0bb6100099f70001faad9c/1561048725178/Access+Denied+-+the+cost+of+the+No+Recourse+to+Public+Funds+policy.+The+Unity+Project.+June+2019.pdf

11 Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/nation-of-sanctuary-refugee-and-asylum-seeker-plan_0.pdf#:~:text=The%20%E2%80%98Nation%20of%20Sanctuary%E2%80%99plan%20outlines%20the%20breadth%20of,relations%20between%20these%20communities%20and%20wider%20society%20improved.

12 Dudhia, P 'Will I ever be Safe? Asylum seeking women made destitute in the UK' Women for Refugee Women: Llundain: 2020 https://www.refugeewomen.co.uk/wp-content/uploads/2020/02/WRW-Will-I-ever-be-safe-web.pdf

13 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/national-strategy-2016-to-2021.pdf

14 https://www.who.int/director-general/speeches/detail/who-director-general-s-opening-remarks-at-the-media-briefing-on-covid-19---11-march-2020 [cyrchwyd 16.3.21]

15 WHO https://www.who.int/mediacentre/news/releases/2013/violence_against_women_20130620/en/ [cyrchwyd 16.3.21]

16 Euronews https://www.euronews.com/2020/03/28/domestic-violence-cases-jump-30-during-lockdown-in-france

17 https://www.channelnewsasia.com/news/commentary/coronavirus-covid-19-family-violence-abuse-women-self-isolation-12575026

18 https://www.refuge.org.uk/25-increase-in-calls-to-national-domestic-abuse-helpline-since-lockdown-measures-began/

19 https://www.theguardian.com/society/2020/apr/15/domestic-abuse-killings-more-than-double-amid-covid-19-lockdown

20 Uned Atal Trais Cymru Adroddiad monitro trais misol Ionawr 2021. Caerdydd; 2021.

21 Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/publications/social-care-sector-covid-19-support-taskforce-report-on-first-phase-of-covid-19-pandemic/bame-communities-advisory-group-report-and-recommendations

22 Llywodraeth Cymru: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/covid-19-bame-advisory-group-potential-impact-of-covid-19-evidence-paper.pdf

23 Lasai, M https://www.theguardian.com/society/2019/feb/12/marai-larasi-bme-women-services-domestic-violence

24 Refuge https://www.refuge.org.uk/our-work/forms-of-violence-and-abuse/modern-slavery/

25 Love is not a passport to Sweden": Intimate Partner Violence against Migrant Women and the Proliferation of Rights' Statuses https://www.ecoi.net/en/file/local/1454526/1930_1544788590_discussion-paper-intimate-partner-violence-against-migrant-women-en.pdf

26 https://www.theguardian.com/society/2020/aug/09/uks-womens-refuges-turn-away-victims-who-speak-no-english

27 Refugee Women Connect: https://www.refugeewomenconnect.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=80da0a18-6898-43a4-8265-3fa4e8fe0d25

28 Sisters Not Strangers : https://allcatsrgrey.org.uk/wp/download/housing/homelessness/d37102_3eb3a41885e24e648f049a972e7e3335.pdf

PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES

Canolfan Cymorth ACEs
Llawr 5,
Rhif 2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

www.aceawarewales.com

E-bost: ACE@wales.nhs.uk

